

PARRY, RICHARD ('Gwalchmai'; 1803 - 1897), gweinidog gyda'r Annibynwyr, bardd, a llenor

Enw: Richard Parry

Ffugenw: Gwalchmai

Dyddiad geni: 1803

Dyddiad marw: 1897

Rhiant: Margaret Parry (née Williams)

Rhiant: Richard Parry

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, bardd, a llenor

Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

Awdur: Richard Griffith Owen

Ganwyd 19 Ionawr 1803 yn Llannerch-y-medd. Cwriwr a lledrwr oedd Richard Parry ei dad; hanoedd ei fam (Margaret Williams) o Walchmai ac yr oedd iddi gryn gynhysgaeth ar ôl ei theulu; brawd iddo oedd [Thomas Parry](#) (1809 - 1874); Methodistiaid oeddynt. Cafodd addysg elfennol dda mewn ysgol eglwysig a oedd yno ar y pryd. Gadawodd yr ysgol yn 12 oed i fyned yn brentis o gyfrwywr. Ymddiddorai mewn llyfrau, a daeth yn amlwg yng ngwaith y capel; dewiswyd ef yn flaenor yn ieuanc, ac yn y cyfnod hwn dechreuodd gystadlu mewn eisteddfodau. Yn 1829 daeth '[Caledfryn](#)' yn weinidog i'r Annibynwyr yn Llannerch-y-medd, ac aeth y ddau yn gyfeillion mawr; '[Caledfryn](#)' a'i dysgodd i gynganeddu. Cyn hir troes at yr Annibynwyr a chyda hwy y dechreuodd bregethu. Yn 1836 ordeiniwyd ef yn gyd-weinidog â Robert Roberts, Treban, ym Mryngwran; yn 1838 symudodd i ofalu am eglwysi Henryd a Chonwy a bu yno 10 mlynedd. Oddi yno yn 1848 symudodd i Lanymddyfri, ond nid ymddengys iddo fod yn gartrefol yno, a dychwelodd i'r Gogledd i Ffestiniog i ofalu am eglwysi y Llan a Bethania yn 1850. Wedi pedair blynedd daeth yn ei ôl drachefn i Gonwy. Rhoddasai ei fryd ar sefydlu eglwys yn Llandudno a oedd bryd hynny yn cyflym ddatblygu yn gyrchfan ymwelwyr haf a symudodd yno. Llwyddodd drwy gymorth Saeson cefnog i godi yno gapel hardd at wasanaeth y Saeson a'r Cymry. Ymddeolodd yn 1881. Bu farw 7 Chwefror 1897 a chladdwyd ef ym mynwent Llanrhos, Llandudno.

Bu'n un o gyd-olygwyr *Y Dysgedydd* o 1853 i 1864. Enillodd 10 o gadeiriau eisteddfodol a llu o wobrau eraill. Cyhoeddodd *Adgofion am John Elias*, 1859; *Enwogion Môn*, 1877; *Glan Geirionydd*, gyda nodiadau; *Yr Adroddiadur Barddonol*, 1877; a *History of Ancient Eisteddfodau*. Odid y bu'r un o w r amlwg y 19eg ganrif mor gynhyrchiol ag ef; ysywaeth ychydig o'i waith sydd ag iddo werth arhosol. Cynrychiolai ei gyfnod a ystyriai 'ennill mewn eisteddfod yn wrhydri ynddo'i hun, a'r prawf o fawredd bardd oedd cael tynnu ei lun â chlwstwr o fedalau ar ei ddwyfron.'

Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen, (1890 - 1973)

Ffynonellau

Peris Williams (gol.), *Cofiant a gweithiau y Parchedig Richard Parry (Gwalchmai)* (Wrecsam 1899)

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 478; iii, 325, 328, 330, 594

Cymru (O.M.E.), xii, 149-52; xvi, 318; xxii, 212-5

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944), 267

NLW MSS 5668-5772

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Richard Parry](#)

Gweithiau

Richard Parry ('Gwalchmai'), *Dechreuad a chynnydd Ymneillduaeth yn Môn* (Amlwch 1882)

Evan Evans, William John Roberts a Richard Parry ('Gwalchmai') (goln.), *Geirionydd: Cyfansoddiadau Barddorol, Cerddorol, a Rhyddieithol y diweddar Barch. Evan Evans (Ieuan Glan Geirionydd). Wedi eu Casglu a'u Trefnu gan ei Nai, W. J. Roberts. Trefriw, gyda Nodiadau ar ei Fywyd a'i Weithiau Llenyddol* (1862)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [73426737](#)

Wikidata: [Q20568247](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

